Sillafu



1. **Y** nid **U** sy'n dod ar ôl **W** fel arfer.

ll**wy**	**wy**thnos	m**wy**nhau
d**wy**	ne**wy**dd	m**wy**af
p**wy**	bl**wy**ddyn	tr**wy**dded
n**wy**	pen-bl**wy**dd	n**wy**ddau
tr**wy**	ll**wy**au	g**wy**lan

2. **Byddwch yn ofalus wrth ddefnyddio U + Y + I**

Dyma rai geiriau sy'n creu trafferthion:

sut	**fyny**	**unig**
rhywun	**rhywbeth**	**tipyn**
penderfynu	**gilydd**	**dweud**
cyffrous	**felly**	**wedyn**
yfory	**symud**	**cymryd**
rygbi	**llythyr**	**(cymerwch)**

3. DYBLU N + R

Dim ond y ddwy lythyren yma sy'n dyblu yn y Gymraeg:

Mae **N + R** ***yn dyblu*** yn y sillaf olaf ond un e.e.:



carreg	**caregog**
pennill	**penillion**
ysgrifennydd	**ysgrifenyddes**

4. Os ydy'r gair unigol ***yn gorffen efo*** **NT**, daw **NN** yn y lluosog:

Unigol: NT	**Lluosog: NN**
cant	**cannoedd**
punt	**punnoedd**
diwydiant	**diwydiannau**

5. Ar ôl llafariad fer mae **N + R** ***yn dyblu***:

ton (wave)	**tonnau**
byr	**byrraf**
glan (shore)	**glannau**

6. Ar ôl llafariad hir does ***dim dyblu*** **N + R**:

môr	**moroedd**
lôn	**lonydd**
tôn (tune)	**tonau**

7. **AN + D = ANN**

an	**+**	**dymunol**	**=**	**annymunol**
an	**+**	**dedwydd**	**=**	**annedwydd**

8. **AN + T = ANNH**

an	**+**	**teg**	**=**	**annheg**
an	**+**	**tebyg**	**=**	**annhebyg**

9. **Cofiwch** dim ond 2 gytsain (+h) ***efo'i gilydd*** felly:

an	**+**	**tr**	**=**	**anhr**
an	**+**	**trefn**	**=**	**anhrefnus**
an	**+**	**trugarog**	**=**	**anhrugarog**

10. ***Nid*** oes dyblu **N + R** ar ôl y terfyniadau (endings) yma:

	- ion
gwyn	**gwynion**

	- iad
diflannu	**diflaniad**

11. i neu u ?

BERFENW: gair sy'n enwi gweithgaredd
e.e. *canu* *ysgrifennu* *rhedeg*

☆ Os oes **o** yng nghanol berfenw mae **i** ar y diwedd:
colli torri pori

☆ Os oes **a** yng nghanol berfenw mae **u** ar y diwedd:
canu palu malu

☆ Os oes **y** neu **w** yng nghanol berfenw mae **u** ar y diwedd:
prynu tynnu pwdu

☆ Os oes **w** ar ddiwedd berfenw mae **i** ar y diwedd:
sylwi berwi enwi

Heblaw am:
mynegi, rhegi, pesgi, geni, medi, peri,
mae pob berfenw ag **e** yn y canol yn gorffen ag **u**:
anrhegu rhestru methu

☆

Sylwch ar hyn:	
rhestr**u** = berfenw (gwneud rhestr)	rhestr**i** = lluosog (mwy nag un rhestr)
cofrestr**u** = berfenw (gwneud/cymryd cofrestr)	cofrestr**i** = lluosog (mwy nag un cofrestr)

☆ **H:** cym**h**ariaeth … ond … cymariaethau
cyng**h**anedd … ond … cynganeddion/cynganeddu
an**h**awster … ond … anawsterau
Cofiwch sillafu **'er engh**raifft' yn gywir!

☆ **ANSODDEIRIAU (geiriau disgrifio): (I / U / Y ?)**

- Gorffen gyda **'d'** > y: swnllyd, drewllyd
- Gorffen gyda **'s'** > u: siaradus, cysurus (eithriad: melys)
- Gorffen gyda **'g'** > i: caredig, diawledig